Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cylch Gorchwyl

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl

Gorffennaf 2024

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cylch Gorchwyl

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei gychwyn, ei reoli a'i fonitro gan y Cyngor ei hun a chan gyfres o Bwyllgorau y mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai pwerau penodol iddynt. Mae'r Pwyllgorau islaw'r Cyngor yn y strwythur Llywodraethu. Ar wahân i'r meysydd hynny lle mae'r Cyngor wedi dirprwyo tasgau diffiniedig a/neu awdurdod i weithredu, rôl cynghori sydd gan y Pwyllgorau. Maent yn adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny sydd yng nghylch gwaith pob Pwyllgor. Bydd y Pwyllgorau hefyd yn dwyn i sylw'r Cyngor unrhyw faterion sy'n peri pryder, neu feysydd ar gyfer gwella.

Mae tri phwyllgor ac un is-bwyllgor gyda grymoedd dirprwyedig:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl
- Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl
- Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb

Mae Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb yn ymgorffori gwaith y pwyllgorau blaenorol Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb Strategol a'r Gymraeg gan sicrhau dull integredig a chydlynol o bob un o'r meysydd i ddatblygu a chynyddu pob un.

Mae gan Is-bwyllgor Cyfalaf y Cyngor hefyd rymoedd i wneud penderfyniadau am grantiau cyfalaf gan wneud argymhellion i'r Cyngor am geisiadau grant sy'n uwch na'i awdurdod. Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfathrebu i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb ei gyngor a, lle bo'n briodol, ei benderfyniadau. Felly, mae'n cynnwys ei waith yn natblygiad polisi a phrosesau perthnasol ar draws gwaith ehangach y Cyngor gan gynnwys datblygu rhaglenni grant.

Mae hefyd un Grŵp – Iechyd a Diogelwch – sy'n adrodd i'r Cyngor drwy ei gofnodion a'i Adroddiad Blynyddol sy'n mynd i'r Cyngor gan Gadeirydd y Grŵp, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes.

Nodir cylch gwaith penodol y Pwyllgor hwn isod.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn. Cafodd y ddogfen hon ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024.

### 1. Rôl y Pwyllgor:

1.1 Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl er mwyn cynghori, a darparu sicrwydd, ar

ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer archwilio mewnol, archwilio allanol, llywodraethu corfforaethol a rheoli perygl.

1.2 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl yn un o bwyllgorau'r Cyngor, ac yn adrodd iddo.

1.3 Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl gynorthwyo'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar lywodraethu, rheoli perygl, yr amgylchedd rheolaeth ac uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

1.4 Yn benodol, mae'n gyfrifol am adolygu'r systemau Rheolaeth Fewnol yng ngweithrediadau rheoli perygl, rheolaeth, llywodraethu ac ariannol y Cyngor a'i weithrediadau eraill er mwyn helpu i hybu'r safonau priodoldeb uchaf wrth ddefnyddio arian cyhoeddus a hybu atebolrwydd priodol am y defnydd o'r arian hwnnw.

1.5 Hefyd, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, monitro cynnydd Cyngor y Celfyddydau wrth weithredu'r argymhellion a godir, a chynghori'r Cyngor ar faterion perthnasol.

1.6 Wrth gyflawni'r gwaith hwn bydd y Pwyllgor yn defnyddio gwaith yr Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol a swyddogaethau sicrwydd eraill yn bennaf, ond ni fydd yn gyfyngedig i'r swyddogaethau archwilio hyn. Bydd hefyd yn gofyn am adroddiadau a sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a Rheolwyr fel bo'n briodol, ac mae'n gallu galw ar swyddogion i ddod i gyfarfodydd pan fo'n ofynnol, er mwyn ei fodloni ei hun ynghylch dibynadwyedd ac uniondeb y sicrwydd hwn.

## 2. Llywodraethu Corfforaethol:

2.1 Adolygu a monitro'r systemau Rheolaeth Fewnol yng ngweithrediadau ariannol ac eraill y Cyngor er mwyn helpu i fodloni'r Cyngor y bydd Cyngor y Celfyddydau'n cyflawni ei amcanion a thargedau allweddol gan gynnwys defnydd economaidd ac effeithiol o'i adnoddau ac unrhyw ddangosyddion ychwanegol fel y cytunwyd.

2.2 Sicrhau bod gan Gyngor y Celfyddydau systemau digonol i fonitro'n effeithiol ei fuddsoddiad mewn sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn, yn arbennig eu perfformiad artistig, ariannol a llywodraethu.

2.3 Sicrhau bod gan Gyngor y Celfyddydau systemau digonol i asesu a monitro'n effeithiol ei waith o reoli a buddsoddi arian Dosbarthu Arian y Loteri, gan gynnwys unrhyw ddosbarthiad dirprwyedig.

2.4 Monitro dull rheoli perygl y Cyngor, gan gynnwys adolygu'n gyfnodol ei Bolisi Perygl, monitro ei Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol, cofrestr(i) Perygl ac unrhyw adroddiadau sy'n codi.

2.5 Monitro trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor e.e. Polisi Gwrth-dwyll ac ymddygiad moesegol y Cyngor a'i uwch swyddogion a'i reolwyr.

2.6 Adolygu ac argymell diwygiadau cyfnodol i God Ymarfer Gorau'r Cyngor i Aelodau a Staff, ac unrhyw bolisïau perthnasol eraill.

2.7 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl yn monitro bod trefniadau priodol yn cael eu llunio a'u gweithredu ac yr adroddir arnynt er mwyn sicrhau bod Cyngor y Celfyddydau'n cadw at Fframwaith Polisi Diogelwch y Llywodraeth.

## 3. Archwilio Mewnol:

3.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl yn sicrhau y caiff swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol ei sefydlu gan y Rheolwyr sy'n bodloni Safonau Archwilio Mewnol gorfodol y Sector Cyhoeddus ac yn darparu sicrwydd annibynnol priodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl, y Prif Weithredwr a'r Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Pwyllgor yn:

3.1.1 Adolygu'r trefniadau ar gyfer archwilio mewnol y Cyngor; penderfynu ar y trefniadau ar gyfer penodi archwilwyr mewnol;

3.1.2 Argymell penodiad archwilwyr mewnol a'r ffioedd fydd yn daladwy iddynt;

3.1.3 Adolygu perfformiad archwilwyr mewnol yn unol â Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt;

3.1.4 Cytuno ar gynlluniau archwilio mewnol sy'n sicrhau bod yr holl agweddau ar weithgareddau'r Cyngor yn cael eu harchwilio, neu'n destun archwiliad, yn briodol o fynych mewn cyfnod rhagnodedig;

3.1.5 Cael a thrafod adroddiadau oddi wrth yr archwilwyr mewnol, gan gynnwys adroddiadau gwerth am arian; ystyried ymatebion y rheolwyr a sicrhau gweithredu priodol gan y rheolwyr yn brydlon;

3.1.6 Ystyried pa mor ddigonol y gweithredir argymhellion archwiliadau;

3.1.7 Cyfarfod â'r Pennaeth Archwilio Mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod y berthynas rhwng y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol ac unrhyw faterion sy'n peri pryder i'r Cyngor neu i'r archwilwyr mewnol.

## 4. Archwilio Allanol:

4.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl yn adolygu gwaith a chanfyddiadau'r Archwilydd Allanol ac yn ystyried y goblygiadau ac ymatebion y Rheolwyr i'w gwaith. Er mwyn cyflawni hyn bydd y Pwyllgor yn:

4.1.1 Adolygu telerau ymgysylltu Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys y gwaith mae'r Archwilydd yn ei wneud ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â Chyfrif Dosbarthu Arian y Loteri; a monitro amcanion allweddol;

4.1.2 Adolygu lefel y ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr allanol;

4.1.3 Cyfarfod âc Archwilio Cymru (AC) i drafod y berthynas rhwng y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol ac unrhyw faterion sy'n peri pryder i'r Cyngor neu i Archwilio Cymru;

4.1.4 Adolygu unrhyw lythyrau rheoli neu adroddiadau eraill a gyhoeddir gan AC; ystyried ymatebion y rheolwyr a sicrhau camau gweithredu priodol gan y rheolwyr;

4.1.5 Adolygu perfformiad yr archwilwyr allanol yn unol â Dangosyddion Perfformiad Allweddol cytunedig.

## 5. Cyfrifon Blynyddol:

5.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl yn adolygu'r Adroddiad a Datganiadau Ariannol Blynyddol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cyngor, yn benodol er mwyn:

5.1.1 Ystyried a yw'r Adroddiad Perfformiad yn briodol ac yn gynrychioladol.

5.1.2 Cynghori ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gaiff ei gynnwysyn yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol Blynyddol.

5.1.3 Sicrhau bod cyfrifon y Cyngor yn cydymffurfio â Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau, Cyfarwyddiadau Cyfrifon (a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon), y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi) ac unrhyw safonau cyfreithiol/gorfodol perthnasol eraill.

5.1.4 Adolygu sail amcangyfrifon allweddol (cyfraddau dibrisiad, darpariaeth ar gyfer dyledion amheus, a phrisiadau asedau eraill ac ati) a phriodoldeb y polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon blynyddol.

5.1.5 Adolygu drafftiau terfynol y Cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol a Chyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri, ac argymell y Cyfrifon i'r Cyngor i gael eu cymeradwyo.

## 6. Arall:

6.1 Cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn ymdrin â'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, gan gynnwys casgliadau a barn yr archwiliadau mewnol ac allanol a darparu sicrwydd i'r Cyngor ar lywodraethu corfforaethol a rheoli perygl.

6.2 Yn ogystal â'r adroddiadau blynyddol i'r Cyngor a nodir uchod, adrodd yn ôl yr angen i'r Cyngor ar unrhyw fater sy'n ymwneud â rheolaethau mewnol y Cyngor ac archwilio mewnol neu allanol mae'n barnu ei fod yn fater brys, yn anarferol, yn ddadleuol neu o bosibl yn niweidiol i enw da'r Cyngor.

6.3 Er mwyn darparu sicrwydd, caiff y Pwyllgor adolygu gwaith pwyllgorau eraill yn y sefydliad.

6.4 Cyfeirio at y Prif Weithredwr unrhyw faterion sy'n deillio o'i waith a fydd o bosibl yn galw am gamau disgyblu.

6.5 Cael gwybodaeth am unrhyw achosion o dwyll a lle bo'n briodol cynghori ar gamau priodol.

6.6 Cyflawni hunanasesiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor.

6.7 Cynghori ar faterion priodol eraill y bydd y Cyngor yn eu cyfeirio ato.

**Cadeirydd:** Unrhyw aelod o'r Cyngor, ac eithrio Cadeirydd y Cyngor

**Penodir gan:** Y Cyngor

**Aelodau:** Bydd y pwyllgor yn cynnwys 6 aelod a benodir gan y Cyngor. Bydd o leiaf 3 yn aelodau o'r Cyngor ac, o ran y gweddill, bydd o leiaf 2 yn aelodau annibynnol.

Os oes swydd wag yn codi yng nghanol y tymor, neu'n dal i fod yn wag ar ôl hysbyseb agored, gellir cyfethol aelodau am weddill y tymor, hyd y cylch recriwtio nesaf.

Bydd pob penodiad yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ac fel arfer bydd am gyfnod o hyd at 3 blynedd. Gall y Cyngor gytuno i ail-benodi aelodau, lle bo'n briodol, fel arfer am chwe blynedd ar y mwyaf ar gyfer aelodau o'r Cyngor a thri thymor (naw mlynedd) ar gyfer aelodau annibynnol.

Ni ellir penodi unrhyw aelod o'r Corff Gweithredol yn aelod o'r Pwyllgor.

Dylid gwahodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes i ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl oni fo'r Pwyllgor yn dymuno eistedd yn breifat. Fel arfer disgwylir i'r Rheolwr Cynllunio, Perfformio a Chydymffurfio, Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o'r Archwilwyr Allanol ddod i'r cyfarfodydd hefyd. Dylid gwahodd Cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion eraill i ddod i gyfarfodydd, ond yn arbennig pan fo'r Pwyllgor yn trafod meysydd perygl neu weithrediad mae'r unigolyn hwnnw'n gyfrifol amdanynt.

Mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr drafod â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl, o leiaf unwaith y flwyddyn, y broses ar gyfer sicrwydd sy'n cynnal y system o reolaeth fewnol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Petai'r Pwyllgor yn cytuno bod angen cyngor arbenigol, byddid yn cael hwn trwy weithdrefnau caffael arferol y Cyngor, trwy'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes.

| | |
|---|---|
| Cworwm: | Tri aelod, y mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn Aelod o'r Cyngor. |
| Atebolrwydd: | Mae'r Pwyllgor wedi'i rwymo gan god moesegol y Cyngor fel y'i nodir yn y Cod Ymarfer Gorau. Mae'n ofynnol i'r aelodau lenwi ffurflen datganiad o fuddiant flynyddol, a darparu diweddariadau os yw amgylchiadau aelod yn newid. Mae hefyd yn ofynnol i'r aelodau ddatgan unrhyw fuddiant ym mhob cyfarfod. |
| Cyfarfodydd: | Pum gwaith y flwyddyn. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd i gael eu pennu ymlaen llaw ar gyfer pob blwyddyn.<br><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl hefyd yn cynnal cyfarfodydd preifat gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Archwilio Cymru o leiaf unwaith y flwyddyn.<br><br>Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl alw cyfarfodydd arbennig pan fernir bod angen hynny. |
| Papurau: | Caiff y papurau eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor wythnos cyn y cyfarfod. Rhaid i'r holl bapurau a'r cofnodion cyfarfodydd dilynol gael eu ffeilio ar system rheoli dogfennau a chofnodion electronig y Cyngor. |
| Adrodd: | Caiff y Pwyllgor ei gynghori gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes a'r Rheolwr Cynllunio, Perfformio a Chydymffurfio. |
| Cofnodion cyfarfodydd a chofnodion: | Caiff cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor eu darparu i gyfarfod nesaf y Cyngor. Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid ac Adnoddau'n sicrhau y cedwir cofnodion cyflawn, ar bapur ac ar ffurf electronig. |
| Diweddaru: | Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl yn cael ei adolygu bob blwyddyn.<br><br>Cafodd y ddogfen hon ei diweddaru a'i chymeradwyo gan y Cyngor diwethaf ym mis Gorffennaf 2024. |